

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd 9 Mai 2011 am 7.30yh  
yn Ystafell Berkley, Penyparc**

## **Presennol**

Cyng. I. Iago (Cadeirydd)  
Cyng. D. Jenkins  
Cyng. D. Davies  
Cyng. A. Stokoe  
Cyng. Auriol Williams

Cyng. Ll. Price (Is-Gadeirydd)  
Cyng. L. Jones  
Cyng. H. Jones  
Cyng. H. Lewis  
Cyng. H. Lewis (Aelod lleol y Cyngor Sir)  
Mrs Hildreth Owen (Clerc)

- 1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Islwyn Iago, bawb i'r Cyfarfod Blynyddol. Diolchodd i'r Cyngorwyr am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn ac i'r clerch am ei gwaith.
- 2. Penodi Cadeirydd Newydd.** Cynigiwyd gan y Cyng. Huw Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y Cyng. Llinos Price yn cael ei phenodi yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2011/12. Cymerodd y Cyng. Llinos Price y Gadair a diolchodd i'r aelodau am ei hethol, a hefyd diolchodd i'r Cyng. Islwyn Iago am ei waith fel Cadeirydd drwy gydol y flwyddyn flaenorol. Cydymdeimlodd gyda'r clerch yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar.
- 3. Llofnodi datganiad derbyn swydd, ac ymrwymo â'r Côt Ymddygiad gan y Cadeirydd newydd.** Yn dilyn, llofnodwyd datganiad derbyn swydd ac ymrwymwyd i ddilyn y Côt Ymddygiad presennol.
- 4. Ymddiheuriadau am absenoldeb.** Y Cyng. Morris Davies
- 5. Datgelu buddiannau personol.** Dim
- 6. Penodi Is-Gadeirydd Newydd.** Cynigiwyd gan y Cyng. Islwyn Iago ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y Cyng. Dilwyn Jenkins yn cael ei benodi yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2011/12.
- 7. Lwfans y Cadeirydd**

Cytunwyd i gadw Lwfans y Cadeirydd yn £300 y flwyddyn, i'w dalu mewn dwy ran.
- 8. Penodiadau eraill 2011/12**

a.	Pwyllgor Rheoli Ystafell Berkley	Cyngorwyr Dilwyn Jenkins, Llinos Price, Ann Stokoe, Huw Lewis a Morris Davies
b.	Cynrychiolydd Pwyllgor Lles Penparc	Cyng. Islwyn Iago
c.	Cynrychiolydd Pwyllgor Lles a Neuadd y Ferwig	Y Cadeirydd.
d.	CAB Ceredigion	Penderfynwyd na fydd cynrychiolydd o'r Cyngor yn mynychu'r cyfarfodydd o hyn ymlaen ( <b>gweler eitem 15</b> )
e.	Cynrychiolydd Sianel Glir Afon Teifi Cyf.	Cyng. Dilwyn Jenkins.
f.	Cynrychiolydd Un Llais Cymru – Ardal Ceredigion.	Cyng. Ann Stokoe
g.	Cyfreithwyr	George, Davies & Evans.
h.	Archwiliwr Mewnol y Cyngor.	Cyng. Ann Stokoe
i.	Archwiliwr Mewnol y Cyfrifon	Mr Ken Griffiths
- 9. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol**

Tud. 631, Eitem 1: Mae angen ychwanegu: "Trafodwyd gwneud cais am gist halen i'w leoli yn y Ferwig erbyn y gaeaf. Gofynnwyd i'r clerch ysgrifennu at y Cyngor Sir am fanylion."  
Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Islwyn Iago ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod cofnodion mis Ebrill yn gywir.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 10. Materion yn codi.

**Llythyr ynglŷn â phantiau ar y ffordd:** Derbyniodd y clerc alwad oddi wrth Mr Anthony Davies, Arolygydd Priffyrdd De Ceredigion ar 21 Ebrill yn ystod ei ymweliad â chwynion a restrwyd i'r Adran Briffyrdd yn dilyn cyfarfod Ebrill. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir am fapiau manwl o'r ardal er mwyn hwyluso adnabyddiaeth o'r ffyrdd.

**Y Cardi Bach:** Derbyniwyd ymateb oddi wrth Mr Ian Dutch ynglŷn ag amserlen Y Cardi Bach 2011 (**gweler eitem 14, rhif 77**)

**Tirlithriad Golygfan Gwbert:** Ymateb oddi wrth y Cyngor Sir (**gweler eitem 14, rhif 76**)

**Cistiau Halen:** Ymateb oddi wrth y Cyngor Sir (**gweler eitem 14, rhif 80**)

**Gosod bin sbwriel mewn concriid:** Cafwyd pris o £80 + TAW oddi wrth Mr Dyfed Symmons. Trafodwyd gyda'r Cadeirydd a chadarnhawyd i Mr Symmons barhau â'r gwaith.

**Mabwysiadu Ciosgau BT:** Cadarnhad fod BT wedi derbyn y cytundeb wedi ei arwyddo (**gweler eitem 14 rhif 83**).

## 11. Ceisiadau am gymorth ariannol / Requests for financial support.

**I'w penderfynu ym mis Ebrill a Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.**

*Gŵyl Fawr Aberteifi. (cais am y flwyddyn 2011) £100 (wedi ei dalu)*

Cronfa Goffa T. Llew Jones

*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais.*

## 12. Cynllunio.

**Materion cynllunio cyffredinol: wedi ei ddanfôn i'r adran Gynllunio 20 Ebrill**

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A110229	Dros-y-môr, Gwbert: Ailosod annedd	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad ond i'r adeilad beidio amharu ar adeiladau cyfagos.

**Datgan Diddordeb:**

**Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir:** Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Mehefin 2011.

**Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:**

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A110107	Parcllwyd, Ferwig: Creu mynedfa	Wedi ei ganiatáu
A110098	Greenfields, Penyparc: Amrywio amod 1 o A060097 i ymestyn yr amser i ddechrau'r datblygiad	Wedi ei ganiatáu
A100936	Penllain House, Penyparc: Estyniad i randy	Wedi ei ganiatáu

**Cyfarfod Safle.** Nid oedd cyfarfod safle wedi ei drefnu

## 13. Materion Ariannol.

**Biliau wedi eu talu.**

SWALEC (Trydan Ystafelloedd Newid Neuadd Berkley) 101176 £32.53

Cyngor Sir Ceredigion (Rhent Golygfan y Gwbert) 101177 £5.00

Y Cyng. Llinos Price (Lwfans y Cadeirydd am 6 mis) 101178 £150.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Huw Jones bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Materion ariannol eraill:** Cadarnhad o daliad y praesept 2011/12: £10,300

**Canllawiau oddi wrth BDO: Archwilwyr Allanol y Cyngor:** Gorchymyn i Gynghorau Bro gofrestru gydag adran Cyllid a Thollau EM (PAYE). Y clerc i gysylltu ag Un Llais Cymru ynglŷn â'r canllawiau yma ac yna trafod gyda'r Cadeirydd.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 14. Gohebiaeth

73	PACT	Posterï yn hysbysu cyfarfod yn Nhafarn Gogerddan 11 Mai am 6.00yh.	Posterï wedi eu dosbarthu i'r hysbysfyrddau. <b>Y Clerc i fynychu'r Cyfarfod</b>
74	CSC	Posterï yn hysbysu'r etholiad a'r refferendwm.	Posterï wedi eu dosbarthu i'r hysbysfyrddau.
75	Mr Ken Griffiths	Llythyr yn cadarnhau ei fod yn barod i'w enw gael ei ystyried i archwilio cyfrifon 2010/11	Y Clerc i hysbysu Mr Griffiths o'i enwebiad.
76	CSC (Adran Briffyrdd)	Ateb ynglŷn â thirlithriad Golygfan Gwbert.	Gweler eitem 10
77	CSC (Ian Dutch)	Ateb ynglŷn â'r Cardi Bach	Gweler eitem 10
78	CSC	Gwahoddiad i'r Cadeirydd a'r clerç i Gyfarfod Blynnyddol y Cyngor 20 Mai 2011	Gan fod y Cadeirydd yn methu bod yn bresennol, yr Is-Gadeirydd a'r clerç i fynd i'r cyfarfod.
79	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Llythyr yn gofyn caniatâd i ddefnyddio'r Cae Pêl-droed a'r toiledau ar gyfer y carnifal a'r mabolgampau 16 Gorffennaf.	Gofynnwyd i'r clerç ysgrifennu at y Pwyllgor Lles yn caniatáu eu cais.
80	CSC (Adran y Priffyrdd)	Gwybodaeth ynglŷn â chistiau halen.	Gweler eitem 10. Y clerç i gysylltu â'r Cyngor Sir i archebu cist halen (cynigiwyd gan y Cyng. Huw Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams) ac ymholi ynglŷn â'r drefn ei ail-lenwi.
81	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Cynllun Datblygu Lleol – Canllawiau Cynllunio Atodol – Drafft.	Nodwyd
82	CSC	Sesiynau hyfforddi y Côt Ymddygiad 16 Mai Neuadd y Dref, Aberteifi 7.00 – 8.30yh.	Y clerç i fynychu'r cyfarfod.
83	BT	Cadarnhad derbyn y cytundeb wedi ei arwyddo. Hefyd e-bost pellach yn cadarnhau bod y gwaith wedi ei gwblhau.	Gweler eitem 10. Y clerç i gysylltu gyda 'Zurich Municipal' ynglŷn ag yswirio'r ciosgau.
84	CSC (Adran Briffyrdd)	Gwybodaeth ynglŷn â rheolau newydd y caiff digwyddiadau ar y briffordd gyhoeddus eu rheoli a'u gweinyddu.	Nodwyd.
85	CSC (Adran Briffyrdd)	Ateb i lythyr y Cyngor ynglŷn â llwybr troed yn Penllain, Penyparc	Nodwyd.
86	CSC (Adran Briffyrdd)	Cynllun Rheoli Traethlin Bae Ceredigion hyd y Gogarth. Digwyddiadau Ymgynghoriad Cyhoeddus.	Nodwyd
87	Cyngor Sir Penfro	Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo: Cyngor Sir Penfro (dyddiad diweddu 2021) – ymgynghori ynglŷn â sylwadau ynghylch Dyrannu Safle – y Cam 'Safleoedd Amgen'	Nodwyd
88	Cronfa Goffa T. Llew Jones	Cais am gymorth ariannol	Y cais i'w drafod ym mis Hydref

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 15. Materion Eraill.

Aseiad Risg ar y Cyfrifon.

Copi ar gael gan y Clerc.

Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth.

Copi ar gael gan y Clerc.

Strategaeth Buddsoddiadau'r Cyngor.

Copi ar gael gan y Clerc.

Cynllun yr Iaith Gymraeg

Copi ar gael gan y Clerc.

*(Gan na chafwyd cynigydd ac eilydd i'r uchod, rhaid eu trafod am yr eilwaith ym mis Mehefin)*

**Gwaith wedi ei gyflawni yn y gymuned:** Dywedodd y Cyng. Islwyn Iago ei fod wedi trwsio'r ffens yn Chwaraefan y Ferwig, trasho'r llwybr yn Patch a pheintio'r lloches bws yn Nhremain. Diolchwyd i'r Cyng. Islwyn Iago gan y Cadeirydd am ei waith da.

**Pyst Gôl Pêl-droed:** Y Cyng. Islwyn Iago yn pryderu bod y pyst gôl wedi eu gadael yn gorwedd ar glawdd y cae pêl-droed. Y Clerc i gysylltu â'r Clwb Pêl-droed.

**Bin sbwriel angen ei wacáu a hen deledu wedi ei adael ar dir Ystafell Berkley:** Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chlwb Ffermwyr Ifainc Penyparc ynglŷn â'r uchod.

**CAB:** Gan fod CAB Aberteifi a CAB Aberystwyth wedi eu huno fel CAB Ceredigion, penderfynwyd na fydd cynrychiolydd o'r Cyngor yn mynychu'r cyfarfodydd yn Aberaeron. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu atynt ynglŷn â hyn gan eu sicrhau o gefnogaeth y Cyngor yn y dyfodol.

**Ffos dwfn ger grid gwartheg ym Mwnt ac amryw geubyllau:** Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn ag amryw o faterion yn y gymuned.

**Y Ddolen Goll o Olygfan Gwburt i Westy'r Cliff:** Daeth i sylw'r Cyngor fod y Cyngor Sir yn awr yn berchen y gweddill o'r tir sydd angen i orffen y gwaith yma, ac awgrymwyd bod y clerc yn cysylltu unwaith yn rhagor ynglŷn ag amserlen.

**Llwybr 73/3 Garnhebydd i'r Clwb Golff:** Mae cwynion wedi eu derbyn fod tyfiant ar y llwybr, ac awgrymwyd bod y clerc yn ysgrifennu at y Cyngor Sir yn gofyn pwy sydd yn gyfrifol am ei gynnal.

**Ffermydd Maesllyn a Rhandir, Tremain (Ffermydd y Cyngor Sir).** Mae tenantiaid y ddwy fferm yma wedi derbyn blwyddyn o rybudd i adael. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir am wybodaeth o'u bwriad ynglŷn â dyfodol y ffermydd.

## 16. Dyddiad Cyfarfod Cyffredinol nesaf: 6 Mehefin yn Hen Ysgol y Ferwig

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn ystod 2011 ar y dyddiadau canlynol:

4 Gorffennaf (YB) 5 Medi (F) 3 Hydref (YB) 7 Tachwedd (F) 5 Rhagfyr (YB)

*Dynoda:* F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynnyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 9 May 2011 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

### Present

Cllr I. Iago (Chairman)  
Cllr D. Jenkins  
Cllr D. Davies  
Cllr A. Stokoe  
Cllr Auriol Williams

Cllr Ll. Price (Vice-Chairman)  
Cllr L. Jones  
Cllr H. Jones  
Cllr H. Lewis  
Cllr H. Lewis (local member of the County Council)  
Mrs Hildreth Owen (Clerk)

1. **Chairman's Welcome.** The Chairman, Cllr. Islwyn Iago, welcomed everyone to the AGM. He thanked the Councillors for their support throughout the year and the clerk for her work.
2. **Appointment of new Chairman.** It was proposed by Cllr Huw Lewis and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that Cllr Llinos Price be appointed Chairperson of the Council for the year 2011/12. Cllr Llinos Price accepted the Chair and thanked members for electing her; she duly thanked Cllr Islwyn Iago for his good work as Chairman during the previous year. Cllr Price sympathised with the clerk at the loss of her father recently.
3. **Signing Declaration of Acceptance and undertaking to observe the current Code of Conduct.**  
The Chairman signed the Declaration of Acceptance of Office and undertook to abide by the current Code of Conduct.
4. **Apologies for absence.** Cllr Morris Davies
5. **Declaration of personal and prejudicial interest.** Nil.
6. **Appointment of new Vice-Chairman.** It was proposed by Cyng. Islwyn Iago and seconded by Cllr Auriol Williams that Cllr Dilwyn Jenkins be appointed Vice-Chairman for the year 2011/12.
7. **Chairman's allowance.**  
It was agreed that the Chairman's Allowance by £300 for the year, to be paid in two instalments.
8. **Other appointments 2011/12**
  - a. Pwyllgor Rheoli Ystafell Berkley Cllrs Dilwyn Jenkins, Llinos Price, Ann Stokoe, Huw Lewis and Morris Davies
  - b. Pwyllgor Lles Penparc Representative Cllr Islwyn Iago
  - c. Pwyllgor Lles a Neuadd y Ferwig Representative The Chairperson.
  - d. CAB Ceredigion It was decided that there would be no representative from the Council attending these meetings in the future (**see item 15**)  
Cllr Dilwyn Jenkins.
  - e. River Teifi Fairways Committee Cllr Ann Stokoe
  - f. One Voice Wales – Ceredigion Area George, Davies & Evans.
  - g. Solicitors Cllr Ann Stokoe
  - h. Council's Internal Auditor Mr Ken Griffiths
  - i. Accounts External Auditor
9. **Minutes of previous Ordinary Meeting**

Page 631, item 1: To be inserted: "It was discussed that a request be forwarded for a salt bin to be situated in Ferwig by next winter. The clerk was asked to write to the County Council for details".  
With the above correction, it was proposed by Cllr Islwyn Iago and seconded by Cllr Auriol Williams that the April minutes be accepted as correct.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 10. Matters arising.

**Letter regarding slight subsidence on road:** The clerk received a visit from Mr Anthony Davies, Inspector of South Ceredigion Highways, on 21 April during his inspection of various complaints sent to the Highways Department following the April meeting. The clerk was asked to contact Ceredigion County Council for detailed maps of the area for clearer identification of the highways.

**Y Cardi Bach:** Reply received from Mr Ian Dutch regarding Y Cardi Bach timetable for 2011 (see item 14, no. 77)

**Landslide at the Gwbert viewpoint:** Response from the County Council (see item 14, no. 76).

**Salt Bin:** Reply received from Ceredigion County Council (see item 14, no. 80)

**Securing litter bin in concrete at Ferwig Playarea:** Price of £80 + VAT received from Mr Dyfed Symmons. Following a discussion with the Chairman, the clerk contacted Mr Symmons regarding carrying out the work.

**Adoption of BT Kiosks at Felinwynt and Gwbert:** Confirmation received from BT that they had received the Council's signed agreement (see item 13 no. 83).

## 11. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.  
*Gŵyl Fawr Aberteifi.* £100 (paid in April)

T. Llew Jones Memorial Fund

*Names in italics = accounts forwarded with applications.*

## 12. Planning.

**General Planning Matters: forwarded to the Planning department 20 April**

<i>App. No,</i>	<i>Address</i>	<i>Observations</i>
A110229	Dros-y-môr, Gwbert: Erection of replacement dwelling.	Council has no objection as long as the building does not detract from surrounding properties.

**County Council's Planning Meeting.** Next meeting: 8 June 2011.

**Applications approved or refused by the County Council.**

<i>App. No.</i>	<i>Address</i>	<i>County Council decision</i>
A110107	Parcllwyd, Ferwig: Formation of access.	Approved.
A110098	Greenfields, Penyparc: Variation of AO60097 to extend time for commencement of development.	Approved.
A100936	Penllain House, Penyparc: Extension to existing annexe.	Approved.

**Site meeting.** No meeting was arranged.

## 13. Financial Matters.

**Bills paid.**

SWALEC (Electricity Changing Rooms, Neuadd Berkley)	101176	£32.53
Ceredigion County Council (Gwbert Viewpoint Rent)	101177	£5.00

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Huw Jones that the above bills be paid.

**Other financial matters:** Confirmation of payment of precept 2011/12: £10,300.

**Directive from BDO: External Auditors to the Council:** Request that Community Councils register with HMRC for the purpose of PAYE. The clerk to contact One Voice Wales regarding these directives and discuss with the Chair.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 14. Correspondence

73	PACT	Posters notifying the meeting at Gogerddan, 11 May at 6.00pm	Posters distributed to the noticeboards. <b>The Clerk to attend the meeting.</b>
74	CCC	Posters advertising the election and referendum.	Posters distributed to the noticeboards
75	Mr Ken Griffiths	Confirmation that Mr Griffiths would allow his name to be considered to audit the accounts for 2010-11	The Clerk to inform Mr Griffiths of his appointment.
76	CCC (Highways Department)	Response regarding the landslide at the Gwbert Viewpoint.	See item 10.
77	CCC (Ian Dutch)	Response regarding 'Y Cardi Bach' timetable.	See item 10.
78	CCC	Invitation to the Chair and Clerk to attend the Annual Meeting of CCC, 20 May 2011.	In the absence of the Chair, it was agreed that the Vice-Chair and Clerk attend the meeting.
79	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Letter asking permission to use the football field for the Sports and Carnival, 16 July.	Clerk to reply granting the council's permission.
80	CCC (Highways Department)	Information regarding the salt bins.	See item 10. The clerk to order a bin (proposed by Cllr Huw Jones and seconded by Cllr Auriol Williams) and to enquire for directives regarding its replenishment.
81	Pembs. Coast National Park Authority.	Local Development Plan – Draft Supplementary Planning Guidance (SPG)	Noted.
82	CCC	Training session on the Code of Conduct, 16 May, Guildhall, Cardigan, 7.00-8.30pm.	Clerk to attend.
83	BT	Confirmation that the contract had been received. A further e-mail confirming that the work had been completed.	See item 10. Clerk to contact Zurich Muniicpal regarding insurance cover of the kiosks.
84	CCC (Highways Department)	Information regarding staging events on the public highway in the area.	Noted.
85	CCC (Highways Department)	Response to the letter re. request for a footway at Penllain, Penyparc.	Noted.
86	CCC (Highways Department)	Cardigan Bay and Ynys Enlli to Great Orme Shoreline Management Plan (SMP) Public consultation events.	Noted.
87	Pembrokeshire County Council	Local Development Plan (end date 2021) Consultation on the Site Allocation Representations.	Noted.
88	T. Llew Jones Memorial Fund	Appication for financial aid.	To be discussed at the October meeting.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 15. Other Matters.

Risk Assessment	Copy available with the Clerk.
Model Publication Scheme	Copy available with the Clerk.
Annual Investment Strategy	Copy available with the Clerk.
Welsh Language Scheme	Copy available with the Clerk.

*(As a proposer and seconder were not noted, the matter to be discussed at the June meeting.)*

**Work completed in the community:** Cllr Islwyn Iago stated that he had mended the fence in the play area in Ferwig, cleared the pathway in Patch and painted the bus shelter in Tremain. He was thanked by the Chair for his commendable work.

**Football Goalposts:** Cllr Islwyn Iago mentioned his concern that the goalposts had been left lying against the hedge in the football field. **The Clerk to inform officials of the football club.**

**Litter bin in need of emptying and the old television set left on the land near Ystafell Berkley:** The Clerk was asked to contact officials of Penyparc YFC regarding the matter.

**CAB:** As Cardigan CAB had now been amalgamated with Aberystwyth CAB, forming Ceredigion CAB, it was agreed that no representative from the council would attend meetings which are to be held in Aberaeron. The Clerk was asked to inform the Bureau of this and to ensure them of the council's future support.

**Ditch clearance at the cattle grid in Mwnt and numerous potholes:** The Clerk was asked to contact the County Council regarding the mentioned matters.

**The missing link from the Gwbert viewpoint to the Cliff Hotel:** The Council has been informed that the County Council now own this stretch of land. It was agreed to the Clerk enquiring as to the timetable of the development.

**The Garnhebydd Footpath 73B to the Golf Club:** As complaints had been received regarding the overgrowth of the pathway, it was agreed that the Clerk write to the County Council for confirmation of responsibility as to its maintenance.

**Maesllyn and Rhandir, Tremain, Farms (County Council farmsteads):** Tenants at both farms had received 12 month notices to quit from the County Council. The Clerk to ask the County Council for further information as to their intentions for the farms.

## 16. Date of next Ordinary Meeting: 6 June in the Old School, Ferwig

*Council Meetings for 2011 will be held as follows:*

4 July (YB) 5 September (F) 3 October (YB) 7 November (F) 5 December (YB)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting